# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2310 |
| Committee | Pwllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Date | 14/09/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Haydn Trollope (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stewart Healy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Mr. Tim Baxter (Co-Optee)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Michelle Jones (Swyddog)<br>Claire Gardner (Swyddog)<br>Joanne Sims (Swyddog)<br>Luisa Munro-Morris (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Damien McCann (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5247 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |

| | |
|---|---|
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| Item ID | 5248 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Adroddwyd yr ymddiheuriadau dilynol:-<br><br>Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant<br>Rheolwr Gwasanaeth Pobl Ifanc a Phartneriaethau<br>Rheolwr Strategol Gwella Addysg |

| Item ID | 5249 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 5250 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 5291 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu – 22 Mehefin 2021 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 22 Mehefin, yn cynnwys:-<br><br><u>Swydd Wag ar gyfer Aelod Cyfetholedig</u><br><br>Dywedwyd y derbyniwyd enwebiad i gael ei ystyried ar gyfer y Cyngor Llawn ym mis Medi. Pe derbynnid yr enwebiad, byddai'r llywodraethwr yn cael gwybodaeth er mwyn mynychu cyfarfod y Pwyllgor Craffu ym mis Medi.<br><br><u>Grantiau Datblygu Disgyblion</u><br><br>Cyfeiriodd Aelod at yr wybodaeth a roddwyd ac er y croesawyd y data, dywedodd yr Aelod ei fod eisiau gweld sut y defnyddiwyd grantiau ychwanegol i gefnogi dysgwyr unigol mewn ysgolion.<br><br>Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y rhoddid diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf. |

| | |
|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu hwnnw.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. |

| Item ID | 5292 |
|---|---|
| Item Title | Diweddariad Llafar - COVID 19 |
| Summary | Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg ddiweddariad llafar ar statws presennol Covid-19 o fewn Addysg ac ysgolion er y dywedodd fod y sefyllfa yn un ddeinamig ac yn newid bob dydd.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod nifer yr achosion wedi cynyddu yn yr ychydig ddyddiau diwethaf a bod y sefyllfa yn gwaethygu yn lleoliadau addysg a dysgu yr Awdurdod. Roedd cynnydd neilltuol yng nghategori plant a phobl ifanc rhwng 10-19 oed. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod 119 achos positif ar draws stad ysgolion Blaenau Gwent ar hyn o bryd, gyda 109 yn ddysgwyr a 10 aelod o staff. Roedd hefyd nifer o'r gweithlu yn hunanynysu. Mae'r nifer uchaf yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri – Cyfnod Uwchradd, Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr – Cyfnod Uwchradd, Ysgol Gyfun Tredegar ac Ysgol Gynradd Cwm. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai'r ffigurau ar gyfer ail wythnos y tymor oedd y rhain, sy'n tanlinellu lefel yr her a wynebir ac atgoffodd Aelodau fod y ffigurau hyn yn debyg o newid bob dydd.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y cyfarfodydd gyda phenaethiaid ysgol i baratoi ar gyfer y tymor i ddod a dywedodd fod y cyfarfodydd hyn yn cynnwys addysg, iechyd yr amgylchedd, iechyd a diogelwch a gwasanaethau cymorth. Bu'r ymatebion gan benaethiaid ysgol yn rhagorol a daethpwyd i safbwynt cyffredin. Ystyriwyd fframwaith rheoli haint Llywodraeth Cymru, sy'n hyrwyddo hunanynysu wedi ei reoli ar gyfer plant dan 18 oed. Caiff y grwpiau cyswllt eu dynodi ar gyfer profi a monitro a dilynwyd y llwybr gweithredu hyn gyda golwg ar gadw addysgu a dysgu wyneb i wyneb lle'r oedd hynny'n bosibl. Byddai pob ysgol yn rhoi cefnogaeth ar gyfer gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu gan fod heriau capasiti yn y maes hwn.<br><br>Mae'r staff arlwyo a glanhau yn fregus oherwydd nifer y staff sy'n hunanynysu a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cedwir golwg agos ar y sefyllfa gydag athrawon a dysgwyr wrth i ni fynd drwy dymor yr hydref.<br><br>Ar y pwynt hwn gofynnodd Aelod y cwestiynau dilynol a gafodd eu hystyried.<br><br>Sut mae cyflenwadau offer diogelu personol (PPE) mewn ysgolion?<br><br>Mae'r stoc o PPE mewn ysgolion yn ddigonol i gefnogi addysgu a dysgu. Cadarnhawyd hefyd y caiff cyllid caledi ei barhau, a fyddai'n cynorthwyo gyda chostau cysylltiedig o'r fath. |

| | |
|---|---|
| | A yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar frechiadau ar gyfer rhai 12-19 oed?<br><br>Mae'r pedwar Prif Swyddog Meddygol ar draws y Deyrnas Unedig wedi cytuno ar y rhaglen brechiadau ar gyfer rhai 12-15 oed a disgwylir cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol agos.<br><br>Canmolodd Aelod yr awdurdod lleol am ei ddull gweithredu a'r camau a gymerir mewn ysgolion. Teimlai'r Aelod ei fod yn cael ei drin mewn ffordd gadarnhaol.<br><br>Codwyd pryderon am blant yn cael eu hanfon i'r ysgol os oes achos positif o Covid-19 o fewn y cartref ac mae'r farn yn gymysg ar p'un ai ddylai plant aros gartref i hunanynysu neu gael eu hanfon i'r ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi peth hyblygrwydd i weithio ar sail leol ond mae canllawiau clir sydd angen iddynt fod ar waith erbyn 20 Medi. Felly mae Blaenau Gwent yn gweithio gyda chydweithwyr Iechyd yr Amgylchedd i sicrhau'r ffordd orau ymlaen ar gyfer rheoli'r sefyllfa. Teimlai'r Aelod y dylid cynghori rhieni i gadw plant gartref i hunanynysu.<br><br>Mae dysgu a llesiant parhaus disgyblion yn fater o gadw'r fantol gan fod tarfu wedi bod eisoes ar ddysgu a theimlwyd fod mynychu'r ysgol yn bwysig ar gyfer eu llesiant emosiynol a chorfforol. Ychwanegwyd mai'r flaenoriaeth yw sicrhau fod dysgwyr yn aros o fewn eu lleoliadau ysgol priodol. Byddai achosion lle gall fod angen i ddysgwyr weithio gartref a gwnaed llawer iawn o waith ar ddysgu cyfunol pe byddai'r angen yn codi, fodd bynnag mae'r ffocws ar gadw dysgu wyneb i wyneb.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y diweddariad llafar a theimlai ei bod yn bwysig eu cael er mwyn medru rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i etholwyr. |

| Item ID | 5293 |
|---|---|
| Item Title | Gwasanaethau Addysg – Prif Adroddiad Hunanarfarnu |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg yr adroddiad, sy'n rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Craffu graffu ar ganfyddiadau proses hunanarfarnu cyfredol a gynhelir o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg, ar draws y Cyngor a gyda phartneriaid allweddol.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr adroddiad a rhoddodd fanylion y broses hunanarfarnu gynhwysfawr a helpodd i ddynodi'r meysydd hynny lle gwnaed cynnydd a lle mae angen gwelliant pellach. Nodwyd fod y canfyddiadau manwl yn y prif SER yn atodiad 2 a chyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at dri maes arolygu fframwaith arolygu LGES. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol drosolwg pellach o'r meysydd lle gwnaed |

cynnydd da a meysydd lle mae angen gwelliant pellach fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

I gloi, cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol fod prif ddogfen SER yn ddogfen waith faith iawn sy'n rhoi sylw i holl fframwaith LGES. Mae'r ddogfen yn rhoi'r cyd-destun a data i ddangos cynnydd a llywio sylwadau hunanarfarnu. Fodd bynnag, bwriedir diweddaru'r ddogfen SER gryno ar gyfer adroddiadau hunanarfarnu y dyfodol a bydd hyn yn galluogi Aelodau i ganolbwyntio'n benodol ar flaenoriaethau allweddol. Felly awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod Aelodau yn ystyried y meysydd dilynol fel llinellau ymholiad ar gyfer y broses graffu, yn unol gyda'r asesiad effaith corfforaethol a fanylir yn Atodiad 4.

- Adfer ac adnewyddu yn gysylltiedig gyda chynnydd academaidd;
- Cefnogaeth i ddysgwyr bregus;
- Diwygio ADY/Cwricwlwm;
- Llesiant Dysgwyr; a
- Chydweithio i gefnogi dysgwyr, yn neilltuol gydag ysgolion.

Gwahoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar y pwynt hwn.

Nododd Aelod, er fod sôn am y bwlch rhwng y rhywiau yn yr adroddiad, nad oedd maes ar gyfer gwella a gofynnodd os yw'r maes hwn i gael ei ystyried.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg nad yw'r pynciau y rhoddir sylw iddynt yn yr adran yn cynnwys popeth ac wedi'u crynhoi yn yr adroddiad, er fod gwybodaeth ar y rhywiau ar gael yn y prif adroddiad hunanarfarnu.

Cyfeiriodd Aelod at gywirdeb targedau a deilliannau a amlinellir yn yr adroddiad gan nad yw data manwl gywir yn cael ei roi. Teimlai'r Aelod ei bod yn bwysig monitro'r wybodaeth hon i sicrhau nad yw disgyblion wedi llithro oherwydd y pandemig a bod gosod targedau yn gywir.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod y targedau a osodwyd yn uchelgeisiol, realistig ac ymarferol yn unol â'r Cynlluniau Datblygu Ysgolion. Dywedodd y dynodwyd fod gwaith a wneir mewn cysylltiad gyda EAS ar gyfer ysgolion fel bod angen cymorth ychwanegol gam wrth gam. Mae'r gwaith hwn yn llinyn allweddol o weithgaredd yn y Cynllun Adfer ac Adnewyddu i sicrhau y caiff y data llinell sylfaen ei ailgalibreiddio fel bod data yn canolbwyntio ar sylw wrth symud ymlaen.

Gadawodd y Cynghorydd M. Day y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Codwyd pryderon yng nghyswllt rhagweld graddau gan fod y pandemig wedi effeithio'n ddybryd ar ein hysgolion a gobeithir fod gan y gefnogaeth briodol gan ein dysgwyr bregus. Er nad yw'r data hwn ar gael ar hyn o bryd, mae'n bwysig ei bod ar gael i'r Pwyllgor Craffu er mwyn i Aelodau fonitro'r sefyllfa.

| | |
|---|---|
| | Awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y gellid cyflwyno adroddiad sy'n rhoi manylion y dystiolaeth ar sut y gwnaed y dyfarniad priodol. Yn nhermau effeithiau'r pandemig, roedd ysgolion uwchradd yn rheoli graddau CA4 a benderfynwyd mewn canolfan yn dda. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol na fu llawer o apeliadau yn erbyn y graddau a ddyfarnwyd, felly teimlid fod dealltwriaeth gytbwys o'n dysgwyr.<br><br>Mewn ymateb i bryderon a wnaed yng nghyswllt nifer y bobl ifanc sy'n mynychu addysg bellach tu allan i Flaenau Gwent gan nad oedd cyrsiau academaidd ar gael, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y bwriedir trefnu sesiwn wybodaeth i aelodau gyda Coleg Gwent i roi'r sefyllfa ddiweddaraf a chytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol i godi'r mater hwn gyda Choleg Gwent yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth Strategol Ôl-16.<br><br>Gofynnodd Aelod hefyd am wybodaeth ar dderbyniadau mewn ysgolion uwchradd tu allan i Flaenau Gwent a chytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol i roi data mewnfudo ac allfudo o ysgolion uwchradd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chydnabu fod hunanarfarnu effeithlon yn broses barhaus (Opsiwn 1). |

| Item ID | 5294 |
|---|---|
| Item Title | Strategaeth ac Adolygiad Cynhwysiant (2021-2022) |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn fanwl am yr adroddiad ac amlinellu'r pwyntiau allweddol.<br><br>Nodwyd y cynhaliwyd proses ymgynghori helaeth gyda Pen y Cwm. Teimlai Aelod y byddai'n fuddiol sefydlu grŵp ffocws o rieni o'r un anian a gofynnodd os gellid ymchwilio hyn.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y rhoddir sylw i farn rhieni a hefyd ddisgyblion o fewn datblygiad y strategaeth.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a gobeithiai ei bod yn ddogfen fyw y mae pawb yn cytuno arni gan ei bod yn bwysig fod Coleg Gwent yn cymryd rhan er mwyn eu hysbysu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chytunwyd ar yr adolygiad o'r Gwasanaeth Cynhwysiant i sicrhau y caiff gofynion y Ddeddf Anghenion Datblygu Ychwanegol eu diwallu. Bydd hyn yn cynnwys adnoddau perthnasol, strwythurau, disgrifiadau swydd a sicrhau fod trefniadau perthnasol yn eu lle i gyflawni anghenion y Ddeddf Anghenion Datblygu Ychwanegol (Opsiwn 2). |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5295 |
| Item Title | Adolygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Hygyrchedd Addysg |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r broses Adolygiad Strategaeth Hygyrchedd Addysg ac amserlen gysylltiedig. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth y caiff y strategaeth ddiwygiedig ei gweithredu o fis Medi 2022 ac amlinellu yn fanwl y cynnydd cryf a wnaed ar y strategaeth ynghyd â chamau gweithredu cysylltiedig rhwng 2017 a 2021.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth ymhellach yn fanwl am yr adroddiad ac amlinellodd y cyd-destun cyfredol, aliniad gyda gweinyddiaeth meddyginiaeth ac anghenion meddygol yn ogystal â goblygiadau ariannol y gyllideb.<br><br>Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad ac roedd yn falch fod Blaenau Gwent yn arwain y ffordd.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd Summers y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5296 |
| Item Title | Adolygiad Polisi Rhwng y Cartref a'r Ysgol a Chludiant Ôl 16 2022 - 2023 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Addysg a Newid Busnes drosolwg manwl o'r adroddiad ac amlinellodd y pwyntiau allweddol a nodir yn yr adroddiad.<br><br>Codwyd pryderon am y pellter teithio ar gyfer plant a theimlid y dylai adnoddau ychwanegol fod ar gael ar gyfer trafnidiaeth ysgol a theimlai Aelod fod angen adolygu hyn. Dywedodd y Swyddog y cynhaliwyd adolygiad helaeth ac mae terfynau presennol Blaenau Gwent yn fwy hael na'r terfynau statudol, fodd bynnag caiff y polisi ei adolygu ar sail flynyddol.<br><br>Codwyd pryderon pellach am drafnidiaeth gyhoeddus, oedd yn hwyr ar achlysuron a dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Addysg a Newid Busnes fod yr Awdurdod yn gwybod am y materion hyn ac er mai dim ond grantiau teithio ar gyfer disgyblion y mae'r Awdurdod wedi eu darparu, codwyd y pryderon i'r darparwyr hyfforddiant priodol er mwyn trin y mater.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwywyd y polisi yn ei ffurf bresennol, er yr argymhellwyd i'r Pwyllgor Gweithredol y dylid |

| | |
|---|---|
| | cynnal adolygiad o’r polisi y flwyddyn nesaf (Opsiwn 2). |

| Item ID | 5297 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 19 Hydref 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg na fyddai data CA4 ar gael i’w rannu gyda’r Pwyllgor Craffu yn y cyfarfod nesaf ac yn dilyn trafodaethau CYTUNODD y Pwyllgor i gynnwys adroddiad Gwahardd Disgyblion ar agenda’r mis nesaf a’i bod yn eitem statudol.<br><br>Yn nhermau ‘helpu aelodau etholedig i ddod i adnabod ein hysgolion’ teimlid fod llawer o bwysau ar ysgolion ar hyn o bryd a theimlwyd nad hwn oedd yr amser cywir i fynd ar ôl y gweithgaredd hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a’r Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod ar 19 Hydref 2021 gyda’r diwygiadau a nodir uchod (Opsiwn 1). |